

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Darparu'r Dystysgrif Her Sgiliau fel rhan o Fagloriaeth Cymru
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith (enw(au) ac enw'r tîm):	Kate Rothwell, Awen Penri
Adran:	Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):	Claire Bennett, Kevin Palmer
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Kirsty Williams, Gweinidog Addysg
Dyddiad Dechrau:	1 Medi 2019

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc. Cynnig

Cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru diwygiedig i'w addysgu o fis Medi 2015. Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyfansawdd, yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau, a gaiff ei graddio, a chymwysterau ategol eraill.

Argymhellodd Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru (2012) y dylai Llywodraeth Cymru annog pawb i fabwysiadu Bagloriaeth Cymru fel y sail ar gyfer rhaglenni dysgu – ysgolion Yn 14 i 16 oed ac ysgolion a cholegau yn 16 i 19 oed. Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais, sef y bydd pob ysgol a Sefydliad Addysg Bellach ledled Cymru yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru erbyn y flwyddyn academaidd 2019/20, gan sicrhau amser i'w chyflwyno'n raddol. Yng Nghyfnod Allweddol 4, cefnogwyd hyn drwy ei gynnwys fel mesur perfformiad cyhoeddedig ers 2018. Mae hyn yn golygu y caiff ysgolion eu barnu yn ôl perfformiad cyflawniad eu disgyblion yn y Dystysgrif Her Sgiliau.

Mae mesurau 'dros dro' Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer 2019 yn parhau i gynnwys Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru fel prif fesur perfformiad, yn ogystal â chynnwys cyflawni'r cymhwyster hwn, lle y mae ymhlith canlyniadau gorau'r disgybl, yn y 'Capio 9' diwygiedig - mesur cyfansawdd a fydd yn adlewyrchu cyrhaeddiad ar bob lefel ac ehangder y cwricwlwm a gynigir mewn ysgol.

Nid yw Bagloriaeth Cymru yn statudol yn y cyfnod ôl-16. Fodd bynnag, polisi Llywodraeth Cymru yw annog pob coleg a Chweched Dosbarth i'w chynnig fel rhan o'u rhaglenni dysgu - felly, dylai pob dysgwr gael cyfle i elwa ar ddilyn y Dystysgrif Her Sgiliau sy'n arwain at gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Fel rhan o'r dangosyddion perfformiad ôl-16 newydd (sy'n gymwys i sefydliadau addysg bellach a'r chweched dosbarth), mae'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch wedi'i chynnwys fel cymhwyster cyfwerth â Safon Uwch yn y mesurau cyflawniad a gwerth ychwanegol newydd. Yn ogystal, byddwn yn mesur cyfran y dysgwyr hynny sydd wedi'u cofrestru i astudio Bagloriaeth Cymru Uwch sy'n cwblhau ac yn cyflawni fframwaith cyfan y cymhwyster, a'r graddau a gyflawnwyd ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch.

Cefndir

Cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru am y tro cyntaf yn 2007. Cafodd y cymhwyster diwygiedig, mwy cadarn ar gyfer Bagloriaeth Cymru ei ddylunio a'i ddatblygu mewn ymateb i Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru 2012, a ystyriodd gorff mawr o dystiolaeth gan arbenigwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid addysg o bob cwr o'r DU.

Yn 2015-16, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru, y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, adroddiad ar sut y datblygwyd y Dystysgrif Her Sgiliau a'r trefniadau a oedd ar waith i helpu i'w chyflwyno. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod cymorth ac adnoddau priodol ar waith.

Yn dilyn hyn, gwnaeth Cymwysterau Cymru gomisiynu Wavehill, mewn partneriaeth ag Athrofa Addysg Coleg Prifysgol Llundain, i gynnal adolygiad mwy manwl o strwythur y Dystysgrif Her Sgiliau a sut y caiff ei hasesu. Roedd yr adroddiad¹, a gyhoeddwyd yn 2018, yn cynnwys 8 argymhelliad a oedd yn ymwneud â'r canlynol: gwella gwybodaeth/ymwybyddiaeth; hyfforddiant a chymorth; gwella dyluniad y cymhwyster a'r ffordd y caiff ei asesu a'i ddyfarnu.

Mewn ymateb i'r adroddiad yn 2018, mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu grŵp dylunio i ddatblygu syniadau ar gyfer cynigion sy'n seiliedig ar argymhellion yr adroddiad. Caiff grŵp ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys myfyrwyr, athrawon, cyflogwyr a phrifysgolion ei ddefnyddio i fireinio a dilysu cynigion y grŵp dylunio.

Agorodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol ymchwiliad i statws Bagloriaeth Cymru yn ystod hydref 2018 a chyhoeddodd ei adroddiad a'i argymhellion ym mis Ebrill 2019.

Er y tynnwyd sylw at rai materion, dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd gan y pwyllgor ei bod yn amlwg o fudd astudio'r cymhwyster. Priodolwyd rhai o'r canfyddiadau negyddol ar y ffaith nad oedd rhai rhanddeiliaid allweddol a buddiolwyr bwriadedig o bosibl yn meddu ar ddigon o wybodaeth am y cymhwyster.

Un o'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, a dderbyniwyd yn dilyn hynny, oedd:

'...cyhoeddi, fel mater o flaenoriaeth, ganllawiau cryfach a mwy manwl ar y polisi sy'n ymwneud â mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol. Dylai'r canllawiau nodi'n glir yr amgylchiadau lle gall dysgwyr gael eu heithrio rhag astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau, a dylai fod yn destun asesiad trylwyr a chynhwysfawr o effaith ar hawliau plant.'

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau plant, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Y prif nod yw galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos dealltwriaeth a hyfedredd mewn sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd: Cyfathrebu, Rhifedd, Llythrennedd Digidol, Cynllunio a Threfnu, Creadigrwydd ac Arloesedd, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, ac Effeithiolrwydd Personol. Rhoddir pwyslais ar ddysgu cymhwysol a phwrpasol, ac i ddarparu cyfleoedd asesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn drwy dri Briff Her a Phrosiect Unigol.

Dyluniwyd y Dystysgrif Her Sgiliau gyda mewnbwn gan gyflogwyr, colegau a phrifysgolion i ddarparu sgiliau i ddysgwyr a fydd yn eu helpu i ddatblygu i astudio ymhellach neu weithio.

Gall cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau hefyd helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol a chael eu derbyn i Addysg Uwch gan fod y rhan fwyaf o brifysgolion yn ei chydabod fel cymhwyster sy'n gyfwerth â Safon Uwch, ai bod yn cyfrannu at atgyfnerthu datganiad personol dysgwr. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau hefyd yn darparu'r sylfeini i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ehangach sy'n cyd-

¹ [Adolygiad o gynllun a model asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru, Wavehill \(2018\)](#)

fynd â phedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru, a gaiff ei gyflwyno i'w addysgu o 2022.

Fel yr amlygwyd yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, mae'r effeithiau negyddol ar bobl ifanc yn cynnwys yr agwedd bod astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ataliol o ran ei heffaith ar ddewisiadau dysgwyr. Ceir tystiolaeth hefyd i awgrymu ei bod yn cael ei chyflwyno'n wael mewn rhai achosion, yn enwedig os na fydd yr ysgol yn neilltuo digon o adnoddau i gefnogi'r gwaith o addysgu'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae yna broblem hefyd o ran y ffaith nad yw rhai prifysgolion yn cydnabod y Dystysgrif Her Sgiliau yn eu cynigion; fodd bynnag, mae nifer y prifysgolion sy'n derbyn y cymhwyster yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r canlyniadau wedi bod yn galonogol ers ei rhoi ar waith ym mis Medi 2015. Cofrestrwyd 26,933 o ymgeiswyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2018, cynnydd o 14.9% o gymharu â 2017, a chyflawnodd 98.0% o ddysgwyr y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen newydd (cynnydd o 5.1 pwynt canran o gymharu â 2017) fel rhan o Fagloriaeth Cymru Genedlaethol/Sylfaen.

Cofrestrwyd 12,015 o ymgeiswyr ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, sef cynnydd o 6.2 y cant o gymharu â 2017. Cyflawnodd 97.7% o ymgeiswyr y Dystysgrif Her Sgiliau - sy'n gyfwerth â chymhwyster Safon Uwch, cynnydd o 3.7 pwynt canran o gymharu â 2017.

Bydd cymhwyster cyfredol ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn parhau i ddatblygu dros amser, a bydd Grŵp Dylunio Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar ei gynigion ar gyfer newidiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i randdeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc, roi adborth.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant (e.e. plant sydd wedi dioddef profiad niweidiol yn ystod plentyndod, plant sy'n byw mewn tldi, plant ag anabledd, plant sy'n byw mewn cartrefi Cymraeg eu hiaith a phlant mewn addysg Gymraeg ac ati.)

Dyluniwyd y Dystysgrif Her Sgiliau i fod yn gynhwysol ac mae ar gael ar dair lefel:

- Sylfaen (lefel 1) yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16;
- Cenedlaethol (lefel 2) yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16;
- Uwch (lefel 3).

Mae'r cymhwyster ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn sicrhau hygrychedd i ddysgwyr.

Dylai ysgolion a cholegau fod yn cynnig cyfleoedd sydd er budd pennaf i'w dysgwyr, a disgwyliwn iddynt ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth benderfynu pa ddysgwyr ddylai fod yn ymgymryd â Bagloriaeth Cymru.

Pa dystiolaeth y gwnaethoch ei defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr?

Fel rhan o'i adolygiad, cynhaliodd Wavehill grwpiau ffocws gyda dysgwyr o sampl o ysgolion a cholegau (canolfannau) Addysg Bellach ledled Cymru, ynghyd â chyfweld ag athrawon, darlithwyr, a chydlynwyr Bagloriaeth Cymru.

Dyweddodd dysgwyr eu bod wedi mwynhau agweddau penodol ar y Dystysgrif Her Sgiliau, megis mynd allan i'r gymuned neu ddysgu sgiliau busnes a gwnaethant nodi dilyniant pendant o ran y dysgu a geir drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau nad yw ar gael mewn pynciau eraill, megis sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol, siarad cyhoeddus, sgiliau arwain, a sgiliau ariannol.

Casglwyd nifer o astudiaethau achos o gylchlythyrau CBAC fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Fagloriaeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys enghreifftiau lle nododd myfyrwyr fanteision megis: magu hyder; gallu trafod eu Prosiectau Unigol mewn cyfweiliadau Prifysgol; profiadau cadarnhaol yn gweithio yn y gymuned.

2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Rhoddwyd sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud y penderfyniad i hyrwyddo'r cynnig i fabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol. Nododd ein hasesiad mai erthyglau 1-4, 12 a 29 CCUHP yw'r rhai sydd fwyaf perthnasol i'r cynnig.

Mae erthyglau 1-4 a 12 yn berthnasol yn gyffredinol ac mae Erthygl 29 yn fwy perthnasol yn benodol:

'Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau'r plentyn yn llawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni a'u diwylliant eu hunain a diwylliant pobl eraill'

Yn ogystal â'r canlyniadau cadarnhaol a nodwyd o dan gwestiwn 1, mae agweddau Dinasyddiaeth Fyd-eang a Her y Gymuned y Dystysgrif Her Sgiliau yn hyrwyddo parch a phwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned, yn lleol ac yn ehangach.

Er y disgwylir i bob person ifanc rhwng 14 a 19 oed gyfle i astudio Bagloriaeth Cymru a chyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau gysylltiedig, mae hawl ganddynt i beidio â gwneud hynny. Nid yw'n statudol, a bydd y canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi yn sicrhau eglurder ar y polisi yn ogystal â hawliau plant yn y cyd-destun hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda Cymwysterau Cymru, CBAC, consortia rhanbarthol Ysgolion a Cholegau Addysg Bellach wrth i'r gwaith o ddiwygio'r Dystysgrif Her Sgiliau fynd rhagddo, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi cymorth mewn perthynas ag unrhyw adnoddau, hyfforddiant neu oblygiadau newydd eraill a allai godi o newidiadau i'r cymhwyster yn y dyfodol a lleihau'r risg o unrhyw effeithiau andwyol ar ddysgwyr.

Bydd ymgysylltu pellach â phobl ifanc wrth inni fwrw ymlaen â chynllun cyfathrebu, ar y cyd â Cymwysterau Cymru, CBAC a chonsortia rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth o fanteision astudio Bagloriaeth Cymru.

- ♦ ***Esboniwch unrhyw effaith negyddol ar hawliau plant sy'n deillio o'r cynnig, gan gynnwys unrhyw ostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi polisiâu neu raglenni.***

Yng Nghyfnod Allweddol 4, caiff lleoliadau a gynhelir eu hariannu gan awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Rhanbarthol.

Yn y cyfnod ôl-16, caiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei hariannu mewn rhaglenni Addysg Gyffredinol fel cymhwyster ar wahân. Caiff ei hariannu fel cymhwyster cyfwerth â Safon Uwch.

Rhoddir yr un lefel o gyllid i raglenni galwedigaethol, p'un a ydynt wedi'u cyflwyno gyda'r Dystysgrif Her Sgiliau ai peidio; lle caiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei hariannu am 135 o oriau dysgu fel rhan o elfen 'graidd' rhaglen. Byddwn yn adolygu hyn ymhellach ar gyfer 2020/21.